Yr offeiriad doeth

(dod i benderfyniad)

Roedd gan bobl y pentref feddwl y byd o'r offeiriad. Byddai pawb yn mynd at yr offeiriad efo'u problemau. Byddai'n helpu'r plant a'r bobl a phawb oedd yn byw yn y pentref. Byddai'r bobl yn tyrru i'w weld, rhai yn ystod y dydd, eraill gyda'r nos. Ar y Sul byddai'r bobl yn tyrru i'r eglwys i wrando ar yr offeiriad yn pregethu. Roedd y plant a'r bobl yn mwynhau'r offeiriad yn pregethu. Weithiau byddai'n dweud pethau doniol a digri a byddai'r gynulleidfa i gyd yn chwerthin dros yr eglwys.

Un bore, cyn i'r gwasanaeth ddechrau, daeth tri ffermwr, yn ôl eu harfer, i'r gwasanaeth. Ond roedden nhw wedi cyrraedd yn gynnar iawn. Roedden nhw am gael gair efo'r offeiriad cyn i'r gwasanaeth ddechrau. Roedd yr offeiriad yn newid i'w ddillad offeiriadol yn y festri. Daeth cnoc ar y drws. "Dewch i mewn," meddai'r offeiriad yn ei lais mwyn.

"Bore da," meddai'r tri ffermwr wrtho ac ysgwyd llaw efo'r offeiriad.

"Bore da," meddai yntau'n ôl.

"Mae'r tywydd sych yma'n gwneud drwg mawr i'r cnydau," meddai un o'r ffermwyr, "ac mi rydyn ni wedi dod i'ch gweld chi'r bore yma i weld fedrwch chi'n helpu mewn unrhyw ffordd?"

"Wrth gwrs," meddai'r offeiriad, "dyna pam ydw i yma, i geisio helpu pawb yn y pentref. Rydw i'n gwybod am weddi fedra i ei defnyddio. Yn y gorffennol mae'r weddi yma wedi gweithio bob tro ac mae hi wedi bwrw glaw o'i hochr hi. Ond mae yna un peth! Mae'n rhaid i ni gyd gytuno ar y diwrnod y bydd hi'n bwrw glaw. Ar ôl i'r gwasanaeth ddirwyn i ben y bore yma fe gawn ni gytuno ar y diwrnod arbennig hwnnw."

Diolchodd y tri ffermwr i'r offeiriad a ffwrdd â nhw i mewn i'r eglwys i fod yn barod ar gyfer y gwasanaeth. Ar ôl i'r gwasanaeth ddiweddu meddai'r offeiriad, "Rydw i am i chi i gyd aros am ychydig i ni gael trafod rhywbeth sy'n poeni'r ffermwyr. Fel y gwyddoch chi mae hi wedi bod yn sych ers wythnosau bellach ac mae'r cnydau'n gwywo. Mi ydw i'n gwybod am weddi fydd yn ein harwain i ofyn i Dduw anfon glaw ar y cnydau, ond mae'n rhaid i ni gytuno ar y diwrnod hwnnw. Fyddech chi'n hoffi iddi fwrw glaw heddiw?"

"O! na, dim heddiw," meddai un neu ddau o ddynion yn y sêt ffrynt. "Mae gêm a chwaraeon yn digwydd pnawn yma."

"Beth am yfory ynteu?" gofynnodd yr offeiriad.

"O na! dim yfory," cwynai rhai o'r merched, "mae hi'n ddiwrnod golchi yfory ac mae'n rhaid cael tywydd sych i sychu'r dillad.

"Beth am ddydd Mawrth?" gofynnodd yr offeiriad.

"O na! dim ddydd Mawrth," meddai un neu ddau o'r ffermwyr. "Mi rydan ni'n cynaeafu yr ychydig wair sydd gynnon ni."

"Wel, beth am ddydd Mercher?" gofynnodd yr offeiriad yn amyneddgar.

"Na," meddai'r gwragedd yn bendant, "mae hi'n ddiwrnod marchnad. Mae'n well iddi fod yn sych ddydd Mercher."

"Dydd Iau ynteu?" gofynnodd yr offeiriad.

"Na," oedd ateb y plant, "mae hi'n ddiwrnod mabolgampau."

"Dydd Gwener?" Na, doedd yr adeiladwr ddim eisiau glaw ar ddydd Gwener gan ei fod yn toi y tai newydd yng ngwaelod y pentref. Doedd y Maer ddim eisiau gweld glaw ar ddydd Sadwrn gan ei fod yn agor ffair y pentref.

"Wel," meddai'r offeiriad, "gan nad oes neb yn cytuno, gwell fyddai gadael y cyfan i Dduw. Mi fydd y glaw yn siŵr o ddod yn ei dro."

Adnod: "Dyma'r gorchymyn yr wyf yn ei roi i chwi: carwch eich gilydd." Ioan 15:17

Gweddi: O Dduw, mae hi'n anodd pan mae pawb eisiau gweithredu'n wahanol. Ond, wnei di geisio'n helpu ni i weithio efo'n gilydd i wneud y pethau pwysig? Amen.

Trafod:

- Ydych chi'n credu y gall pobl reoli'r tywydd?
- Oes yna rywbeth y gallwn ni ei wneud i wella'r amgylchfyd?